# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 5 Mehefin 2013**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda
(136)v5

### 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau (45 munud)

Gweld y cwestiynau

### 2 Cwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth (45 munud)

Gweld y cwestiynau

### 3 Dadl Cyfnod 3 o dan Reol Sefydlog 26.44 ar y Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru) - GOHIRIWYD

Yn unol â Rheol Sefydlog 26.36, mae'r gwelliannau i gael eu gwaredu yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn codi yn y Bil.

**Mae'r gwelliannau wedi cael eu grwpio at ddibenion y ddadl ac fe'u trafodir yn ôl y grwpiau a ganlyn:**

1. **Gofal Lliniarol**
4

2. **Gwasanaethau a eithrir**
5, 6, 10

3. **Y cyfnod amser ar gyfer adennill costau**

7

**4. Apelau a hawlildiadau**
1, 2, 3

**5. Pŵer i atal y Ddeddf dros dro**
8, 9

**Dogfennau ategol:**
Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru)
Memorandwm Esboniadol
Rhestr o welliannau wedi'u didoli
Grwpio Gwelliannau

**4 Cynnig Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog 26.47 i gymeradwyo'r Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru) - GOHIRIWYD**

Ar ddiwedd Cyfnod 3 caiff yr Aelod sy'n gyfrifol gynnig bod y Bil yn cael ei basio yn unol â Rheol Sefydlog 26.47. Os derbynnir y cynnig:

Cynnig Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog 26.47 i gymeradwyo'r Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru)

**5 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)**

**NDM5257 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn croesawu'r cyfle a roddir gan Ddiwrnod y Lluoedd Arfog i ddiolch i bawb sydd wedi gwasanaethu yn ein lluoedd a'r cymorth a roddwyd iddynt gan bobl Cymru.

2. Yn cydnabod cyfraniad gweithwyr nad ydynt yn rhai milwrol i ymdrechion rhyfel olynol.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynorthwyo gwasanaethau sydd wedi'u cyfeirio at gyn-filwyr ac ystyried cyflwyno Cynllun Cerdyn y Lluoedd Arfog, i gyn-filwyr a'r rhai sy'n gwasanaethu yn y lluoedd arfog, i gyd-fynd â digwyddiadau sy'n coffáu canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda Chomisiwn y Cynulliad i ddatblygu a chyhoeddi rhaglen genedlaethol o ddigwyddiadau coffaol.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ystyried gweithio gyda'r lluoedd arfog a phartneriaid eraill i sefydlu Amgueddfa Filwrol Genedlaethol i Gymru i goffáu'r dreftadaeth gyfoethog o aberth, dewrder a gwasanaeth personél milwrol a sifiliaid o Gymru, a phawb sydd wedi gwasanaethu eu gwlad ar adegau o wrthdaro arfog.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Elin Jones (Ceredigion)**

Ym mhwynt 3, dileu popeth ar ôl 'gwasanaethau sydd wedi'u cyfeirio at gyn-filwyr'.

**Gwelliant 2 - Elin Jones (Ceredigion)**

Cynnwys ar ddiwedd pwynt 4:

'ac i gydweithio â phartïon cyfrannog i lunio pabi coch Cymreig i goffáu yn benodol y nifer fawr o filwyr o Gymru a fu farw rhwng 1914 a 1918'

**Gwelliant 3 - Elin Jones (Ceredigion)**

Dileu pwynt 5.

*[Os derbynnir gwelliant 3, bydd gwelliant 4 yn cael ei ddad-ddethol]*

**Gwelliant 4 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ym mhwynt 5 dileu 'sefydlu Amgueddfa Filwrol Genedlaethol i Gymru i' a rhoi yn ei le 'ystyried y ffyrdd mwyaf priodol o'

**Gwelliant 5 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithredu ar y cyd i wella'r driniaeth ar gyfer

Anhwylder Straen Wedi Trawma ymhlith cyn-aelodau'r Lluoedd Arfog drwy ystyried y potensial i sefydlu Canolfan Driniaeth ar gyfer Anhwylder Straen Wedi Trawma yng Nghymru.

**Gwelliant 6 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi Adroddiad Murrison sydd wedi arwain at gyllid ychwanegol ar gyfer aelodau prosthetig i gyn-aelodau'r Lluoedd Arfog yn Lloegr, yn nodi hefyd y gweithgor sydd wedi'i sefydlu ar y pwnc yng Nghymru, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod y ddarpariaeth yn gydradd yng Nghymru.

Gellir gweld Adroddiad Murrison drwy ddilyn y linc a ganlyn:

https://www.gov.uk/government/publications/a-better-deal-for-military-amputees

**6 Dadl Plaid Cymru (60 munud)**

**NDM5256 Elin Jones (Ceredigion)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn credu bod angen i gymunedau Cymru gael gwasanaethau Damweiniau ac Achosion Brys a mamolaeth wedi'u harwain gan ymgynghorwyr mewn ysbytai cyffredinol dosbarth lleol.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Rhoi pwynt newydd ar ddechrau'r cynnig:

Yn gresynu bod y toriadau cyllidebol y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu gwneud i gyllid y GIG, sef y toriadau dwysaf o blith gwledydd y DU, yn cael effaith niweidiol ar allu GIG Cymru i barhau i ddarparu cyfluniad presennol gwasanaethau Damweiniau ac Achosion Brys a mamolaeth wedi'u harwain gan ymgynghorwyr yn ysbytai Cymru.

**Gwelliant 2 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gwrthod y cynigion sy'n cael eu hystyried ar hyn o bryd gan Raglen De Cymru i israddio gwasanaethau Damweiniau ac Achosion Brys a mamolaeth wedi'u harwain gan ymgynghorwyr yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg yn Llantrisant.

**Gwelliant 3 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i gyflawni ei ymrwymiad i gadw'r gwasanaethau Damweiniau ac Achosion Brys presennol yn Ysbyty Glan Clwyd ym Modelwyddan.

**Gwelliant 4 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Weinidog Iechyd Cymru i sicrhau dyfodol y gwasanaethau Damweiniau ac Achosion Brys presennol yn Ysbyty'r Tywysog Philip yn Llanelli.

**Gwelliant 5 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod y bydd ysbytai cyffredinol dosbarth lleol yn darparu gwasanaethau Damweiniau ac Achosion Brys a mamolaeth sy'n gynaliadwy ac yn glinigol gadarn os bydd lefelau recriwtio meddygon yn gwella, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi canlyniadau ei Hymgyrch Recriwtio Meddygon, a lansiwyd ym mis Ebrill 2012.

**Gwelliant 6 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod y bydd ysbytai cyffredinol dosbarth lleol yn darparu gwasanaethau

Damweiniau ac Achosion Brys a mamolaeth sy’n gynaliadwy ac yn glinigol gadarn os bydd lefelau staffio nyrsys yn gwella, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno deddfwriaeth i hwyluso lefel sylfaenol.

**Cyfnod Pleidleisio**

**7 Dadl Fer (30 munud)**

**NDM5255 Russell George (Sir Drefaldwyn):** A yw'r ateb wir yn chwythu yn y gwynt? Y cymysgedd o ynni adnewyddadwy a'r galw cynyddol am ynni dwr.

Dadl sy'n cwestiynu a oes gan Lywodraeth Cymru y strategaeth ynni adnewyddadwy gywir o ran rhoi gormod o bwyslais ar gynhyrchu ynni drwy wynt ar y tir.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mawrth, 11 Mehefin 2013